

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	21 Mawrth 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd / Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol
Awduron yr Adroddiad:	Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol / Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai
Teitl:	Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yma mewn ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth yn Awst 2018.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Er mwyn nodi sut y mae'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â dau gynnig i wella a amlinellwyd yn Adolygiad SAC o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth – Safonau Ansawdd Tai Cymru (Medi 2018) mewn perthynas â gweithio gyda thenantiaid:

I helpu'r sawl sy'n profi tamp a chartrefi nad ydynt wedi eu gwresogi'n addas, yn effeithlon o ran tanwydd, neu wedi eu hinswleiddio'n dda; ac

I adolygu effaith hirdymor dod â'r gwasanaeth warden preswyl i ben mewn perthynas â chynlluniau tai gwarchod.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn gwneud sylwadau yn deillio o hynny.

4. Manylion yr adroddiad

Mae adroddiad archwilio SAC yn cynnwys adborth o gyfweiliadau stepen drws â 122 o'n tenantiaid allan o'n stoc cyfan o 3,385 cartref. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn deillio o adborth a ddarparwyd i SAC yn ystod y cyfweiliadau hyn.

Y ddau gynnig i wella oedd:

4.1 I helpu'r sawl sy'n profi tamp a chartrefi nad ydynt wedi eu gwresogi'n addas, yn effeithlon o ran tanwydd, neu wedi eu hynysu'n dda.

Mae Adran 22 adroddiad SAC yn cyfeirio at adborth gan denantiaid sy'n nodi fod 23% yn teimlo fod ganddynt broblemau'n ymwneud â "tamp a chyddwysiad". Ni

chafodd yr achosion hyn eu harchwilio na'u hymchwilio ymhellach, a chydnabyddir hyn yn yr adroddiad.

Mae gwahaniaeth rhwng y prif bethau sy'n achosi tamp a chyddwysiad. Caiff tamp ei achosi gan amlaf gan wlybanaeth yn treiddio i adeilad, a gellir unioni hyn trwy ymgymryd â gwaith atgyweirio neu wrth-ddampio i rwystro gwlybanaeth rhag mynd i fewn i strwythur yr adeilad. Gall cyddwysiad – er y gall fod yn gysylltiedig â gwresogi ac inswleiddio – o ganlyniad i amodau o fewn y cartref, sy'n gofyn i'r meddiannydd reoli gwresogi ac awyru o fewn eu cartref.

Er mwyn rhoi cyd-destun, nododd arolwg o 2,000 o breswylwyr ar draws yr holl ddeiliadaethau tai a gynhaliwyd gan Ipsos MORI ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn 2014 fod 37% o breswylwyr wedi profi cyddwysiad.

Er i awdurdodau cyfagos Wrecsam (4%) a Sir y Fflint (7%) adrodd ar lai o broblemau o lawer yn ymwneud â chyddwysiad o'i gymharu â'n 27% ni, roedd cyfanswm nifer y bobl a gyfwelwyd yn sylweddol is fel cyfran na ffigurau Sir Ddinbych - 84 o denantiaid allan o 11,207 yn Wrecsam a 96 allan o 7,167 yn Sir y Fflint. Nododd Ynys Môn, fodd bynnag, fod 37% wedi profi tamp a chyddwysiad, ac roedd hyn gyda maint sampl tebyg i Sir Ddinbych (119 allan o 3,792).

Mae'r cynnig yn cynnwys yr ymadrodd "cartrefi nad ydynt wedi'u gwresogi'n ddigonol", ac mae hyn yn awgrymu fod problemau â chyflwr a chyfleusterau ein cartrefi. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol i'r Cyngor gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2014, a bod boddhad cyffredinol â'n tai yn parhau yn uchel.

Gall gwresogi annigonol mewn cartref gael ei achosi gan ddefnydd aneffeithlon neu ysbeidiol o'r system gan y preswylwyr, a gall hyn hefyd fod yn gysylltiedig â fforddiadwyedd trwy dlodi tanwydd.

Effeithlonrwydd Ynni

Yn 2017/2018 cwblhawyd arolwg cyflwr stoc llawn, ac mae gennym wybodaeth ar berfformiad egni 80% o'r cartrefi sydd ym meddiant y Cyngor.

Mae gofyn i eiddo gyrraedd graddfa "D" ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar hyn o bryd yn anelu at gyflawni graddfa "C" i'r holl gartrefi sydd ym meddiant y Cyngor erbyn 2022.

Rydym wedi datblygu rhaglen i sicrhau fod ein cartrefi yn gynnes ac yn effeithlon o ran ynni, a cheir manylion ar hyn yn Atodiad 1.

Cyngor a Chefnogaeth

Ym Medi 2018 aethom i bartneriaeth â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i ddarparu cyngor uniongyrchol trwy gynghorydd pwrpasol er mwyn rhoi cefnogaeth i denantiaid y cyngor mewn perthynas â thlodi tanwydd a materion yn ymwneud â thamp a chyddwysiad. Yn ogystal, mae'r cynghorydd arbenigol wedi gallu darparu adborth i ni ar arferion cwsmeriaid o ran gwresogi eu cartrefi.

Hyd yma, mae 205 o denantiaid wedi ennill incwm ychwanegol ac mae 30 o denantiaid wedi dod allan o dlodi tanwydd.

Fe wnaethom gyhoeddi canllaw i osgoi cyddwysiad yn ein newyddlen ar gyfer Hydref 2018 a anfonwyd i gartref pob un o denantiaid y cyngor. Rydym wedi cynhyrchu'r canllaw hwn ar ffurf pamffled (atodiad 2) sydd ar gael i denantiaid sy'n profi cyddwysiad, ac yn trafod y broblem â nhw. Rydym yn gobeithio datblygu ffilm fer i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol gan fod hyn yn debygol o fod yn gyfrwng mwy effeithiol i amlygu problemau cyddwysiad.

Wrth ddarparu sesiwn ar gyddwysiad i Staff Tai a Chynnal a Chadw, fe wnaethom gymryd y cyfle i'w hatgoffa sut i gefnogi tenantiaid ar ddefnyddio gwresogyddion stôr mewn modd effeithiol. Mae gwresogi trydanol yn tueddu i fod yn amhoblogaidd. Fodd bynnag, o'u defnyddio'n gywir, gall gwresogyddion stôr gyflenwi gwres mwy cyson trwy gydol y dydd a'r nos all fod o fantais penodol i bobl hŷn a all fod gartref am gyfnodau hirach. Rydym felly wedi gofyn i staff drafod hyn â thenantiaid pan fyddant yn ymweld â chartrefi sydd â gwresogi trydanol, ac rydym wedi cynhyrchu pamffled ar ddefnyddio gwresogyddion stôr mewn modd effeithiol.

Arolwg Tenantiaid a Thrigolion (STAR)

Mae Tai Cymunedol yn cynnal arolwg o'n holl Denantiaid a Thrigolion bob 2 flynedd. Mae'r adborth o'r arolwg hwn yn porthi ein cynlluniau ac yn ein helpu i nodi meysydd sydd angen eu gwella gennym.

Roedd y canlyniadau ar gyfer 2017 yn rai da, ac rydym yn falch fod yr adborth ar y ffurflenni diweddaraf yn Ionawr 2019 yn parhau i wella. Mae'r penawdau wedi eu cynnwys yn atodiad 3.

4.2 I adolygu effaith hirdymor dod â'r gwasanaeth warden preswyl i ben mewn perthynas â chynlluniau tai gwarchod.

Mae oddeutu traean o stoc dai Sir Ddinbych wedi ei ddynodi ar gyfer pobl hŷn sydd dros 55 oed. Mae gennym nifer o gynlluniau a arferai fod â warden preswyl ar y safle. Roedd y rôl hon yn un generig iawn a oedd yn gofyn am rywfaint o gyllid rhent craidd ond hefyd am rywfaint o gyllid Cefnogi Pobl oherwydd elfen o'r rôl y bernid ei bod yn darparu gofal a chefnogaeth – er fod hynny ar lefel isel iawn.

Daeth yr adolygiad o 2014 a achosodd y newid i'r casgliad bod modd gwneud gwell defnydd o adnoddau trwy ddarparu'r gefnogaeth arbenigol y mae ar unigolion ei angen ni waeth be fo'u deiliadaeth dai.

Un o ganlyniadau hyn yw bod rhai preswylwyr yn teimlo eu bod wedi colli'r tawelwch meddwl yr oedd y warden ar y safle yn ei roi, ac mae wedi arwain at honiadau y gall preswylwyr gael eu gadael yn fwy ynysig, gyda phryderon ynghylch y risgiau a ddaw yn sgil hynny.

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol er mwyn helpu tenantiaid trwy'r newid a darparu cefnogaeth barhaus ar lefel is lle bo angen hynny. Adolygwyd yr achosion hyn yn 2017 ac mae adroddiad wedi'i gynnwys yn atodiad 4.

Mae adolygiad wedi cael ei gynnal gan Dai Cymunedol (atodiad 5), a ddaw i'r casgliad nad yw dychwelyd i rôl flaenorol y wardeiniaid preswyl yn ymarferol bosib. Mae hyn o ganlyniad i ddiffyg cyllid ar sail cefnogaeth, ac hefyd i'r ffaith fod rôl y

warden yn darparu cefnogaeth generig waeth beth fo'r angen. Gellid dadlau fod hyn â'r potensial o gynyddu teimladau ynysig ymysg preswylwyr gan eu bod yn mynd yn ddibynnol ar y cyswllt dyddiol ac felly nad ydynt yn chwilio am gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol eraill.

Mae'r canolfannau yn y cynlluniau "gwarchod" traddodiadol yn fannau cymunedol egnïol lle y cynhelir nifer o weithgareddau yn cynnwys gweithgareddau iechyd a lles megis ymarfer corff o gadair freichiau. Caiff rhai o'r rhain eu trefnu gan y tîm Tai ac eraill gan y grŵp preswylwyr. Mae bodolaeth y grwpiau preswylwyr hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr gael eu cynnwys a bod yn weithredol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Tai a Chymunedau Cryf yn flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Caiff y gost o wella perfformiad ynni cartrefi cyngor ei chynnwys o fewn y Cyfrif Refeniw Tai.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Nid oedd gofyn am asesiad effaith ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu ymateb i adborth gan denantiaid Tai Cymunedol a gasglwyd yn ystod ymweliadau safle Swyddfa Archwilio Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a chynnal a chadw ar gyfer tai cyngor wedi eu cynnwys o fewn Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai. Cafodd y cynllun ar gyfer 2019/20 ei gymeradwyo gan y Cabinet yn Ionawr 2019.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg a wynebwr yw ein bod yn methu â rhoi'r cynigion i wella ar waith. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein hymateb.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol (2000).

11.2 Mae Adran 7.4.2(b) yn manylu ar bwerau Craffu o ran amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu meysydd gwasanaeth penodol.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol

Ffôn: 01824 712931